



# OFFERYN HUNANARCHWILIO DIOGELU YN EICH SEFYDLIAD

# **“Mae Cadw Plant a Phobl Ifanc yn Ddiogel yn Fusnes i Bawb”**

## **Cyflwyniad**

Mae grwpiau gwirfoddol a chymunedol yn cyflawni rôl bwysig o ran darparu gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn ôl cyfraith y DU, mae rhywun yn blentyn nes ei fod yn 18 oed. Mae'n hanfodol bod y gwasanaethau a'r gweithgareddau y mae eich grŵp yn eu darparu mor ddiogel ag y gallant fod, ac i sicrhau hyn, mae angen bod â mesurau diogelu ar waith yn yr un ffordd â sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

Bydd bod â mesurau diogelu ar waith yn helpu eich grŵp i ddiogelu plant a phobl ifanc rhag niwed a chamdriniaeth yn ogystal â helpu staff a gwirfoddolwyr i wybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni neu'n pryderu ynghylch plentyn.

Mae'r offeryn hunanarchwilio hwn wedi cael ei lunio i alluogi sefydliadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol, ni waeth pa mor fawr neu fach, i sicrhau bod mesurau diogelu ar waith a'u bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol (Deddf Plant 2004) ac arfer gorau a nodir yn “Gweithio gyda'n Gilydd i Amddiffyn Plant” 2006. (Gweler Atodiad 1)

Gellir defnyddio'r offeryn hunanarchwilio fel rhestr wirio i weld ble ydych chi arni o fewn eich sefydliad, a chanfod beth arall all fod angen i chi ei wneud i roi mesurau diogelu ar waith. Gall ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o ymrwymiad eich sefydliad i arfer gorau a gallai gael ei ddefnyddio hefyd pe baech yn cael eich gwahodd i gymryd rhan mewn unrhyw arolygiadau, neu i ategu unrhyw geisiadau am gyllid.

## **Cymorth a Cefnogaeth**

Os oes arnoch angen cymorth i roi mesurau diogelu ar waith, mae cefnogaeth a chynghor ar gael gan eich Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol. Os oes gennych unrhyw bryderon ynghylch plentyn, neu os ydych yn amau y gall plentyn fod yn cael ei gam-drin, ceir rhestr o'r rhai y dylech gysylltu â hwy ar ddiwedd yr offeryn hunanarchwilio (Atodiad 3).

**Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef niwed, wedi dioddef niwed neu fod risg tebygol y bydd plentyn yn dioddef niwed, eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008).**

# ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDIOGELU

Sefydliad: .....

Dyddiad: .....

Polisiâu a Gweithdrefnau	✓	✗	Dd.y.b.	Camau Gweithredu i'w Cymryd
<b>1a</b> A oes gan eich sefydliad Bolisi Diogelu/Amddiffyn Plant?				
<b>1b</b> Os oes, a yw wedi cael ei adolygu yn y deuddeng mis diwethaf?				
<b>1c</b> Os nad oes, gweler y rhestr o gyfeiriadau a dolenni defnyddiol ar ddiwedd y ddogfen hon ar gyfer rhai a all eich helpu i sefydlu un.				
<b>2a</b> Pwy yw eich swyddog penodol ar gyfer Amddiffyn Plant?				

<p><b>2b</b> A oes gan eich Swyddog Amddiffyn Plant wiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB) sy'n berthnasol i'r swydd hon?</p>				
<p><b>2c</b> A yw eich Swyddog Amddiffyn Plant yn cael ei enwi yn eich polisi?</p>				
<p><b>2d</b> A yw pob aelod yn ymwybodol pwy yw eich Swyddog Amddiffyn Plant?</p>				
<p><b>3</b> A yw eich polisi'n egluro sut yr ydych yn gweithredu trefniadau diogelu ar draws eich holl weithgareddau?</p>				
<p><b>5</b> A oes gan eich staff/gwirfoddolwyr fynediad at <a href="#">Weithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan 2008?</a></p>				

<p><b>6</b> A yw eich staff/gwirfoddolwyr yn trafod yr <b>holl</b> bryderon ynghylch amddiffyn plant gyda'r Swyddog Amddiffyn Plant penodol ar unwaith?</p>				
<p><b>7</b> A ydych chi a'ch staff/gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn mewn perthynas â honiadau o gam-drin yn erbyn staff a gwirfoddolwyr? <a href="#">Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008</a> (Adran 4)</p>				
<p><b>8</b> A yw'r holl honiadau/digwyddiadau/pryderon priodol yn cael eu gwneud yn hysbys i'r awdurdodau perthnasol – gwasanaethau cymdeithasol lleol, yr heddlu, a'r corff llywodraethol/ymddiriedolwyr?</p>				
<p><b>9</b> Os yw eich sefydliad yn darparu gweithgareddau rheoledig, a yw eich staff/gwirfoddolwyr yn ymwybodol, os yw aelod o staff/gwirfoddolwr wedi cael ei ddisodli neu'n cael ei ddiswyddo am ei fod wedi niweidio, neu'n achosi risg o niwed i blentyn/rhywun ifanc, (neu y byddai wedi cael ei ddiswyddo os yw wedi gadael) bod dyletswydd i atgyfeirio'r wybodaeth hon at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd? (Gweler Atodiad 2 am ddiffiniad o weithgaredd rheoledig)</p>				

Recriwtio/Cyflogaeth/Gwirfoddoli	✓	✘	Dd.y.b.	Camau Gweithredu i'w Cymryd
<p><b>10</b> A oes gan eich sefydliad weithdrefnau ar waith i ategu arfer da wrth recriwtio a chyflogi staff/gwirfoddolwyr e.e. Sefydlu, Goruchwyllo, Mentora?</p>				
<p><b>11</b> A yw eich sefydliad yn cwblhau'r <b>holl</b> wiriadau priodol ac yn gwirio geirdaon ar gyfer eich holl staff/gwirfoddolwyr cyn eu penodi?</p>				
<p><b>12</b> A yw'r swydd-ddisgrifiadau ar gyfer y swyddi perthnasol yn ateb y gofynion ar gyfer gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB)?</p>				
<p><b>13</b> A yw eich sefydliad yn cofnodi'r holl wiriadau CRB, fetio a recriwtio ac yn cadw'r cofnodion hyn ar ffeil? (Yn unol â <a href="#">Chod Ymarfer y Swyddfa Gartref ar gyfer y CRB</a>)</p>				
<p><b>14</b> A oes gennych God Ymddygiad i staff/gwirfoddolwyr?</p>				

Hyfforddiant i'r Holl Staff/Gwirfoddolwyr	✓	✘	Dd.y.b.	Camau Gweithredu i'w Cymryd
<p><b>15</b> A yw'r <b>holl</b> staff/gwirfoddolwyr sy'n cael cyswllt rheolaidd â phlant yn eich sefydliad wedi cwblhau hyfforddiant Cyflwyniad i Amddiffyn Plant o fewn 6 mis i ddechrau gweithio neu wirfoddoli?</p>				
<p><b>16</b> A yw'r holl staff/gwirfoddolwyr wedi cael eu gwneud yn ymwybodol o <a href="#">Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008</a>?</p>				
<p><b>17</b> A ydych yn cadw cofnod o'r staff/gwirfoddolwyr sydd wedi <u>ac</u> nad ydynt wedi cael hyfforddiant?</p>				
<p><b>18</b> A yw'r holl oedolion sy'n gwirfoddoli gyda'ch sefydliad (gan gynnwys Llywodraethwyr/Ymddiriedolwyr sy'n cael cyswllt â phlant) wedi cael hyfforddiant Cyflwyniad i Amddiffyn Plant?</p>				
<p><b>19</b> Rhowch y dyddiad y bu i'r swyddog penodol ar gyfer Amddiffyn Plant fynychu'r lefel briodol o Hyfforddiant Amddiffyn Plant (yn y ddwy flynedd ddiwethaf)</p>				

<b>Storio a Rhannu Gwybodaeth</b>	✓	✘	Dd.y.b.	Camau Gweithredu i'w Cymryd
<p><b>20</b> A yw eich holl staff a gwirfoddolwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â rhannu gwybodaeth a chyfrinachedd, yng nghyd-destun diogelu? (<a href="#">Diogelu Plant – Gweithio gyda'n Gilydd Dan Ddeddf Plant 2004</a>) (Adran 8.31-8.33)</p>				
<p><b>21</b> A ydych chi'n hysbysu rhieni/gofalwyr a phobl ifanc (e.e. trwy daflen neu lythyr) sut yr ydych yn diogelu plant a phobl ifanc sy'n mynychu eich darpariaeth?</p>				
<p><b>22</b> A yw holl fanylion yr atgyfeiriadau amddiffyn plant neu blant mewn angen neu unrhyw gofnodion mewn perthynas â phryderon ynghylch diogelu a wneir gan eich sefydliad yn cael eu storio'n ddiogel?</p>				



<b>Gweithdrefnau Diogelu ar gyfer yr Adeilad</b>	<b>✓</b>	<b>✘</b>	<b>Dd.y.b.</b>	<b>Camau Gweithredu i'w Cymryd</b>
<b>23</b> Ydych chi'n gwybod faint o fannau mynediad ar gyfer y cyhoedd sydd yn yr adeilad(au) a ddefnyddir gennych?				
<b>24</b> Ydych chi'n monitro manau mynediad fel eich bod yn gwybod os yw plant yn gadael, neu os yw pobl yn dod i mewn i'r adeilad?				
<b>25</b> A oes pobl/cerbydau eraill nad ydynt yn gysylltiedig â'ch sefydliad yn defnyddio/ymweld â'r safle ar yr un pryd â'ch sefydliad?				
<b>26</b> Os ydynt, a oes gennych bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gynnal mesurau diogelu ar gyfer eich plant/pobl ifanc dan yr amgylchiadau hyn?				
<b>27</b> A yw Rhieni / Gofalwyr / Ymwelwyr yn cael eu monitro tra'u bod yn yr adeilad?				
<b>28</b> A yw materion diogelu'n cael eu gwneud yn hysbys i'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr yr adeilad, fel y bo'n briodol?				

<b>E-Ddiogelwch</b>	<b>✓</b>	<b>x</b>	<b>Dd.y.b.</b>	<b>Camau Gweithredu i'w Cymryd</b>
<b>29</b> A oes gan blant fynediad at y Rhyngrwyd trwy unrhyw ddull yn eich grŵp?				
<b>30</b> A oes gennych bolisi ar gyfer defnydd diogel o fynediad at y Rhyngrwyd gan blant a phobl ifanc, staff a gwirfoddolwyr?				
<b>Materion Diogelu Cyffredinol</b>	<b>✓</b>	<b>x</b>	<b>Dd.y.b.</b>	<b>Camau Gweithredu i'w Cymryd</b>
<b>31</b> A oes gennych fforwm lle gallwch gael trafodaethau rheolaidd am y pryderon cyffredinol ynghylch diogelu?				
<b>32</b> A yw eich Bwrdd Ymddiriedolwyr/Tîm Rheoli yn trafod diogelu plant yn rheolaidd?				



## Cwblhawyd yr Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu gan:

Llofnod: .....

Dyddiad: .....

**Yn ddelfrydol dylai'r llywodraethwr/ymddiriedolwr enwebedig ar gyfer hyrwyddo amddiffyn plant, ynghyd ag uwch aelod o staff neu'r Swyddog Amddiffyn Plant dynodedig weithio ar yr archwiliad hwn, unwaith y flwyddyn ac adolygu'r cynnydd yn rheolaidd mewn perthynas ag unrhyw gamau gweithredu ynddo. Gallai'r archwiliadau a'r adolygiadau hyn fod yn rhan o unrhyw dystiolaeth ar gyfer arolygiad o'r ddarpariaeth yn y dyfodol gan Estyn (os yw'n rhan o'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid).**



## ATODIAD 1

**Gweithio gyda'n Gilydd 2006** – Mae sefydliadau gwirfoddol a darparwyr yn y sector preifat yn cyflawni rôl bwysig o safbwynt darparu gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan gynnwys mewn darpariaeth blynnydoedd cynnar a gofal dydd, gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwaith ieuencid a gofal cymdeithasol a gofal iechyd i blant.

Mae nifer o sefydliadau gwirfoddol yn fedrus mewn gwaith ataliol, ac fe allent fod mewn sefyllfa dda i gyrraedd y plant, pobl ifanc a theuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae sefydliadau gwirfoddol hefyd yn darparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac ar gyfer rhieni a phlant sy'n destun ymholiadau a47 a chynadleddau amddiffyn plant.

Mae'r sector gwirfoddol yn weithredol o ran gweithio i ddiogelu'r plant a'r bobl ifanc y mae'n gweithio gyda hwy. Mae ystod o sefydliadau ymbarél ac arbenigol, gan gynnwys y cyrff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer chwaraeon, yn cynnig safonau, arweiniad, hyfforddiant a chyngor i sefydliadau gwirfoddol mewn perthynas â chadw plant a phobl ifanc yn ddiogel rhag niwed.

Mae Childline yn wasanaeth cenedlaethol i'r holl blant a phobl ifanc ac arnynt angen cyngor ynghylch cam-drin, bwlio a phryderon eraill.

NSPCC yw'r unig sefydliad gwirfoddol sydd wedi'i awdurdodi i gychwyn achosion cyfreithiol i amddiffyn plant dan amodau Deddf Plant 1989, ond mae sefydliadau gwirfoddol eraill yn aml yn cyflawni rôl allweddol o ran gweithredu cynlluniau amddiffyn plant.

Mae angen i sefydliadau yn y sectorau gwirfoddol a phreifat sy'n gweithio gyda phlant fod â'r trefniadau ar waith yn yr un ffordd â sefydliadau yn y sector cyhoeddus, ac mae angen iddynt gydweithio'n effeithiol gyda Byrddau Lleol Diogelu Plant. Mae angen i staff cyflogedig a gwirfoddol fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau am ddiogelu a hybu lles plant, a sut y dylent ymateb i bryderon ynghylch amddiffyn plant.

**Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008** – Mae'r gweithdrefnau'n seiliedig ar yr egwyddor sylfaenol bod amddiffyn plant rhag niwed yn gyfrifoldeb a ddylai gael ei ysgwyddo gan yr holl unigolion ac asiantaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd, a chydag oedolion a allai achosi risg i blant. Ni ellir amddiffyn plant yn effeithiol trwy gael un asiantaeth yn gweithredu ar ei phen ei hun.

**Os oes gan unrhyw un wybodaeth, pryderon neu amheuan bod plentyn yn dioddef niwed, wedi dioddef niwed neu fod risg tebygol y bydd plentyn yn dioddef niwed, eu cyfrifoldeb hwy yw sicrhau bod y pryderon yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, sydd â dyletswyddau a phwerau statudol i wneud ymholiadau ac ymyrryd pan fo angen.**



## ATODIAD 2

### Crynodeb o'r diffiniad o weithgaredd rheoledig

Mae'r diffiniad cyfreithiol llawn o weithgaredd rheoledig wedi'i nodi yn Atodlen 4 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed 2006, fel y'i diwygiwyd (yn arbennig, gan Ddeddf Amddiffyn Rhyddidau 2012)

Mae gweithgaredd rheoledig yn dal i hepgor trefniadau teuluol, a threfniadau personol, anfasnachol.

#### Gweithgaredd rheoledig sy'n ymwneud â phlant

Mae'r diffiniad newydd o weithgaredd rheoledig sy'n ymwneud â phlant yn cynnwys dim ond:

- (i) Gweithgareddau heb oruchwyliaeth: addysgu, hyfforddi, cyfarwyddo, gofalu am neu oruchwyllo plant, neu roi arweiniad ar les, neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig;
- (ii) Gweithio i ystod gyfyngedig o sefydliadau ('mannau penodedig'), gyda chyfle ar gyfer cyswllt: er enghraifft, ysgolion, cartrefi plant, safleoedd gofal plant. Nid yw'n cynnwys gwaith gan wirfoddolwyr dan oruchwyliaeth;

Mae gwaith dan (i) neu (ii) yn weithgaredd rheoledig dim ond os caiff ei wneud yn rheolaidd. Mae Llywodraeth EM yn darparu canllawiau statudol ynghylch goruchwyllo gweithgareddau a fyddai'n weithgareddau rheoledig pe baent yn digwydd heb oruchwyliaeth.

- (iii) Gofal personol perthnasol, er enghraifft, ymolchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan neu dan oruchwyliaeth gweithiwr proffesiynol;
- (iv) Gwarchodwyr plant cofrestredig; a gofalwyr maeth

Nid yw gwirfoddolwr dan oruchwyliaeth mewn man penodedig yn weithgaredd rheoledig, ond os yw'r rôl yn un heb oruchwyliaeth neu'n rôl am dâl mewn man penodedig, yna mae'n weithgaredd rheoledig.

## RHIFAU FFÔN DEFNYDDIOL AR GYFER AMDDIFFYN PLANT

### Gweithwyr Cymdeithasol Dyletswydd

Tîm Dyletswydd ac Asesu – 01492 575111 (Conwy)

Tîm Cyswllt Cyntaf – 01824 712900 (Sir Ddinbych)

### Gwasanaethau Cymdeithasol y Tu Allan i Oriau Arferol

01492 515777 – Gadewch neges a bydd y Gweithiwr Cymdeithasol y Tu Allan i Oriau Arferol yn cysylltu â chi (Conwy)

0845 0533116 – Gadewch neges a bydd y Gweithiwr Cymdeithasol y Tu Allan i Oriau Arferol yn cysylltu â chi (Sir Ddinbych)

### Rhifau Defnyddiol Eraill

### Uned Diogelu'r Cyhoedd yn yr Heddlu

01745 588977 (9.00am – 5.00pm)

### Yr Heddlu y Tu Allan i Oriau Arferol

999 (Galwadau Brys)

0845 6071001 (galwadau difrys – gofynnwch am yr Ystafell Reoli)

### Llinell Gymorth 24 Awr NSPCC

0808 – 800 5000 (Byddant yn rhoi cyngor ac yn gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ôl yr angen)

### Llinell Gymorth Gyfrinachol 24 Awr Childline

0800 – 1111 i Blant a Phobl Ifanc (Rhadffôn)

### Cyfeiriadau a Dolenni Defnyddiol

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy  
8 Riviere's Avenue  
Bae Colwyn LL29 7DP  
Ffôn 01492 534091  
[www.cvsc.org.uk](http://www.cvsc.org.uk)

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych  
Canolfan Naylor Leyland  
Stryd y Ffynnon  
Rhuthun LL15 1AF  
Ffôn 01824 702441  
[www.dvsc.co.uk](http://www.dvsc.co.uk)

Yr Uned Cofnodion Troseddol  
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru  
Neuadd Morfa  
Stryd y Baddon  
Y Rhyl LL18 3EB  
Ffôn 0800 0197 391  
[www.wcva-cru.org.uk](http://www.wcva-cru.org.uk)

## Cysylltiadau a Dolenni Defnyddiol

Llinell Gymorth NSPCC 0808 800 5000

[www.nspcc.org.uk](http://www.nspcc.org.uk)

Safe Network – Yn darparu gwybodaeth ac adnoddau i helpu i gadw plant yn ddiogel

[www.safenetwork.org.uk](http://www.safenetwork.org.uk)

Bwrdd Lleol Diogelu Plant Conwy a Sir Ddinbych

[Cliciwch yma ar gyfer y ddolen](#)

Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

[Cliciwch yma ar gyfer y ddolen](#)

Diogelu Plant – Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004

<http://wales.gov.uk/publications/circular/2007/1637402/?lang=en>

Yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (Sy'n newid i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

[www.isa.homeoffice.gov.uk](http://www.isa.homeoffice.gov.uk)

Y Swyddfa Gartref

[www.homeoffice.gov.uk](http://www.homeoffice.gov.uk)

Taflenni Gwybodaeth yn hyrwyddo arfer da mewn gwirfoddoli

[www.cvsc.org.uk](http://www.cvsc.org.uk)    [www.dvsc.co.uk](http://www.dvsc.co.uk)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

[www.wcva.org.uk](http://www.wcva.org.uk)



## Offeryn Hunan-Archwilio Diogelu i Grwpiau Gwirfoddol a Chymunedol Ffurflen adborth

1. Sut cawsoch chi wybod am y pecyn cymorth hwn?

.....

.....

2. Beth oedd eich argraff gyntaf?

- Defnyddiol
- Ymarferol
- Ddim yn berthnasol
- Unrhyw sylwadau .....

.....

.....



3. Hoffem wybod sut mae defnyddio'r Offeryn Hunan-Archwilio wedi newid arferion o fewn mudiadau. Rhowch eich manylion cyswllt isod er mwyn i ni allu cysylltu â chi am adborth yn nes ymlaen.

Enw.....

Ebost .....

Ffôn .....

Dychwelwch y ffurflen ar ôl ei chwblhau i :-

Ann Westmoreland  
CVSC  
8 Rhodfa Riviere's  
Bae Colwyn, LL29 7DP  
[annwestmoreland@cvsc.org.uk](mailto:annwestmoreland@cvsc.org.uk)

neu

Suzanne Mollison  
CGGSDd  
Canolfan Naylor Leyland  
Rhuthun LL15 1AF  
[suzanne@dvsc.co.uk](mailto:suzanne@dvsc.co.uk)